Y Comisiwn Etholiadol

The Electoral Commission

Ann Jones MS
Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd

06 Tachwedd 2020

Annwyl Gadeirydd,

Rwy'n ysgrifennu, fel y gofynnwyd, i egluro ein tystiolaeth heddiw yng ngwrandawiad Pwyllgor y Llywydd, mewn perthynas â chynnwys dibrisiant yn amcangyfrif y Comisiwn. Gadewch i mi ddechrau trwy ymddiheuro am yr anawsterau gyda'r rhyngrwyd a wnaeth amharu ar y dystiolaeth honno.

Fel y nodwyd gan aelodau'r Pwyllgor, darperir cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru fel arian parod. Gan nad oes gan ddibrisiant, fel arfer, berthynas uniongyrchol ag all-lif arian parod, mae cyllid o'r fath fel arfer yn cwmpasu gwariant cyfredol ac eithrio dibrisiant, gan ychwanegu gwariant cyfalaf. Mewn trafodaethau cynnar â Llywodraeth Cymru a swyddogion y Senedd, roeddem wedi bod yn gweithio yn ôl y rhagdyb y byddai'r cyllid yn unol â'r arfer hwnnw.

Fodd bynnag, daeth yn amlwg yn y trafodaethau taw ystyriaeth bwysig arall oedd y dylai sail y cyllid ar gyfer y Comisiwn gydweddu â'r sail gyllid a fyddai'n cael ei darparu ar gyfer bloc cyllid datganoledig Cymru.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol ei bod yn normal, lle caiff swyddogaethau eu trosglwyddo o San Steffan i'r Senedd neu Lywodraeth Cymru, i Drysorlys EM drosglwyddo'r cyllid cysylltiedig o'r adran berthnasol ar lefel y DU i'r bloc cyllid datganoledig yng Nghymru. I gael effaith gyfatebol yn yr achos hwn, bydd Trysorlys EM yn trosglwyddo'r gyfran o gyllid y Comisiwn sy'n briodoladwy i'r Senedd i'r bloc cyllid datganoledig ar gyfer Cymru. Bydd y cyllid o Bwyllgor y Llefarydd wedyn yn cael ei ostwng yn gymesur â hynny.

Cysylltwyd â swyddogion Trysorlys EM gan y Comisiwn Etholiadol a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd am eu cyngor technegol o ran sut orau i sicrhau trosglwyddo'r bloc cyllid datganoledig, a sicrhau bod y cyllid sy'n ddyledus i'r Comisiwn yn parhau i fod wedi ei alinio. Eu cyngor cadarn oedd y gellid cyflawni hyn orau trwy gyfri'r ddau ar sail gwariant cyfredol gan gynnwys dibrisiant. Mae'r Comisiwn yn fodlon i gael ei gyllido ar y sail hon

Y Comisiwn Etholiadol
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Caerdydd CF14 3UZ

Ffôn: 0333 103 1929
infowales@electoralcommission.org.uk
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
electoralcommission.org.uk

gan ei bod yn bodloni gofynion ariannol y mae swyddogion Llywodraeth Cymru a’r Senedd wedi eu canfod, ac mae hefyd yn gyson â chyngor Trysorlys EM.

Hyderaf y bydd hyn yn egluro’r dull yr ydym wedi ei fabwysiadu, ar ôl ymgynghori. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, byddem, wrth gwrs, yn hapus i helpu.

Yn gywir



Kieran Rix
Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
krix@electoralcommission.org.uk